



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar
Ysgol Hafod Lon**

**Y Ffôr
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6US**

Dyddiad yr arolygiad: 7 Rhagfyr 2010

gan

Mr Glyn Griffiths

Dan Gytundeb ar ran

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Ysgol arbennig ddyddiol ar gyfer dysgwyr rhwng tair a phedair ar bymtheg oed yw Hafod Lon. Mae gan bob dysgwr ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae yna 38 (25 bachgen, 13 geneth) ar y gofrestr, 34% ohonynt gydag anghenion dwys a lluosog.

Lleolir yr ysgol yn Y Ffôr ger Pwllheli, Gwynedd. Daw'r dysgwyr o ardaloedd Meirion a Dwyfor.

Mae 95% o gefndir Prydeinig gyda 38% yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Dysgir y plentyn drwy gyfrwng iaith y cartref ac yn ôl ei anghenion mewn cymdeithas ddwyieithog.

Mae dau ddysgwr yn cael eu cofrestru yn yr ysgol ond yn derbyn eu haddysg yn nhŷ Meirion, Dolgellau ar gais yr awdurdod addysg lleol (AALI).

Mae 7% yn derbyn cinio ysgol am ddim.

Mae'r ysgol wedi derbyn gwobrwyon Ysgol Iach, Ysgol Werdd a'r Marc Safon.

Amcanion yr ysgol yw addysgu pob dysgwr i'w lawn botensial drwy gyfrannu at eu bywydau bob dydd yn eu cymdeithas a chynorthwyo eu pontio o'r ysgol i fywyd perthnasol o fewn y gymuned.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Hafod Lon yw £12789 sy'n cymharu gyda chyfartaledd cenedlaethol o £16993 ar gyfer yr holl ysgolion arbennig yng Nghymru.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn Nhachwedd 2005.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae Hafod Lon yn ysgol dda oherwydd:

- gweledigaeth ac arweiniad cadarn y pennaeth;
- y cynnydd da sydd yn cael ei gyflawni gan y dysgwyr;
- ansawdd dda'r addysgu, ynghyd a chyd-weithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion;
- ymddygiad da'r dysgwyr; ac
- ansawdd uchel y gofal a chefnogaeth.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweiniad a disgwyliadau uchel y pennaeth;
- effeithiolrwydd cydweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a gwasanaethau cefnogol; a'r
- awyrgylch gefnogol sydd yn magu hyder yn y dysgwyr, a meithrin dysgu.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr yr ysgol;

- A1 sicrhau darpariaeth a chyfleoedd mwy heriol ar gyfer y dysgwyr mwy galluog;
- A2 parhau i gydweithio gyda'r AALI i wireddu'r cynlluniau ar gyfer gwella addasrwydd ac ansawdd yr adeilad;
- A3 cryfhau'r berthynas rhwng darganfyddiadau'r broses hunan arfarnu, a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
---	-----------

Safonau: Da

Mae bron pob un o'r dysgwyr, ym mhob cyfnod allweddol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u galluoedd, a'u targedau o fewn y pynciau craidd.

Mae bron pob un yn dangos ymddygiad ardderchog ac yn gwneud cynnydd da yn eu medrau, gyda chynnydd da iawn o fewn sgiliau iaith a chyfathrebu.

Maent yn gwrando yn astud ac yn ymateb yn frwdfrydig wrth ganolbwyntio yn barhaus ar eu tasgau a dangos dyfalbarhad.

Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau, ac mae'r dysgwyr mwy abl yn cydnabod eu cynnydd o fewn eu targedau. Mae dysgwyr llai abl yn defnyddio cyfarpar yn effeithiol i gyfathrebu a mynegi eu hunain i eraill.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cyflawni safonau da o ystyried ei hanghenion dysgu. Maent yn ymateb yn dda i raglenni addysgu unigol.

Mae pob dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu cyflawniadau blaenorol, ac mae hyn yn cael eu nodi yn eu hadroddiadau a'u cynlluniau addysgol unigol (CAU).

Caiff y dysgwyr mwy abl gyfleodd i fynychu ysgolion a cholegau lleol, yn ogystal â derbyn profiad o fyd gwaith. Maent yn dangos cymhwysiad da a pherthnasol o sgiliau yn y sefyllfaoedd yma, ac yn dangos eu bod yn gallu addasu eu perthynas, ymddygiad a sgiliau personol i gyd fynd a gwahanol sefyllfaoedd.

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

Gall y rhan fwyaf drin arian yn dda a hefyd mae ganddynt ddealltwriaeth dda ar sut i ddefnyddio technoleg gwybodaeth ynghyd a gwybod pam a sut i gadw'n iach a heini. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion cynaliadwy megis trin yr ardd a dengys y profiadau yma fod llawer o'r disgyblion yn gallu gwneud penderfyniadau, a chydweithio yn effeithiol ac eraill.

Mae dysgwyr o wahanol grwpiau yn cyflawni yn dda yn erbyn eu targedau, yn enwedig y rhai sydd ag awtistiaeth.

Nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniadau bechgyn a genethod a'r rheini sydd yn cael prydau am ddim. Mae bron pob dysgwr yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau, ac yn cydnabod eu cynnydd o fewn eu targedau.

Nid yw yn briodol cymharu'r safonau y bydd dysgwyr yn eu cyflawni a chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad dros amser oherwydd yr ystod eang o anghenion arbennig.

Mae bron pob dysgwr yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn dangos amrediad da o eirfa o fewn cyd-destun penodol ac yn ysgrifennu brawddegau syml i fynegi eu hunain. Mae'r rhai hynaf yn ateb cwestiynau yn ysgrifenedig, yn glir a chryno.

Gwna'r dysgwyr sydd ag anghenion mwy dwys ddefnydd effeithiol o gyfarpar ac adnoddau cyfathrebu i fynegi eu hunain.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn unol â'u gallu, yn dangos dealltwriaeth dda o'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn ei defnyddio yn effeithiol, o fewn eu galluoedd, mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Mae'r dysgwyr mwy abl yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu ysgolion a cholegau lleol ac yn dangos cymhwysiad da a pherthnasol o fedrau allweddol

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar draws yr ysgol yn dangos cynnydd da mewn medrau meddwl, gyda'r dysgwyr hŷn yn dangos sgiliau o weithredu a gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Mae llawer yn gwneud defnydd da o sgiliau mathemateg gan drin arian yn dda, gyda'r rhai hynaf yn dangos annibyniaeth wrth siopa neu ymweld â chaffi

Mae bron pob dysgwr o fewn adran hŷn yr ysgol yn ennill cymwysterau cydnabyddedig. Mae canlyniadau ASDAN (Award Scheme Development and Accreditation Award) yn dangos bod dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac ol-16 yn gwneud cynnydd da.

Lles: Da

Mae lles y dysgwyr yn dda.

Mae pob dysgwr yn teimlo yn ddiogel a nifer fawr ohonynt yn dweud eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y staff. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn awyddus i ddysgu.

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

Mae ymddygiad bron pob dysgwr yn dda iawn, y tu allan a thu mewn i'r ysgol. Mae presenoldeb y dysgwyr dros y tri thymor diwethaf yn 94.3% sydd yn dda iawn gan ystyried anghenion cymhleth rhai ohonynt.

Mae'r ysgol wedi ennill Cam Un cynllun Ysgol Iach a thrwy weithgareddau'r cyngor ysgol a hefyd gweithgareddau cwricwlaidd mae'r dysgwyr yn ymwybodol iawn o fwyta'n iach a magu arferion personol megis cadw yn ffit.

Mae'r dysgwyr yn chwarae rhan gynhwysfawr ym mywyd a gweithgareddau'r gymuned leol. Maent yn dangos sgiliau hunan ddisgyblaeth ardderchog wrth wneud penderfyniadau drostynt eu hunan. Maent yn cefnogi ei gilydd yn gyson mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn dangos parch at ei gilydd ac at staff yr ysgol.

Mae'r dysgwyr hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o'r sgiliau maent ei angen i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu datblygiad.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r cwricwlwm wedi ei drefnu yn ofalus i ymateb a thargedau personol y dysgwyr ac yn ymateb a'r gofynion statudol, ac yn cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau gwerthfawr.

Mae'r athrawon yn cydweithio yn dda i gyflwyno rhaglenni hyblyg sydd yn cynnig cyfleoedd i wella sgiliau a'u defnyddio ar draws holl weithgareddau'r ysgol.

Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o gyraeddiadau pob dysgwr, ac fe ddefnyddir y wybodaeth yma yn effeithiol i gynllunio.

Ceir ddarpariaeth effeithiol ar gyfer cyfathrebu yn y Gymraeg a Saesneg gan sicrhau cynhwysiad dysgwyr o wahanol alluoedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfoethogi dealltwriaeth a phrofiadau'r dysgwyr o faterion Cymreig yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda'r gymuned a chyflogwyr sydd yn helpu'r dysgwyr i ddatblygu'n gymdeithasol, ac yn codi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth a materion cynaliadwy.

Yng nghyfnod allweddol 4 gwelir amrywiad o brofiadau yn ymateb a gofynion y Fframwaith 14-19 gyda chysylltiadau buddiol gyda nifer o asiantaethau allanol sydd yn helpu'r dysgwyr i adnabod a dewis eu llwybrau addysg ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol yn Ysgol Werdd ac wedi derbyn y wobr arian am ei gwaith mewn agweddau o ddatblygiad cynaliadwy. Mae dealltwriaeth y dysgwyr o faterion amgylcheddol yn dda.

Caiff dinasyddiaeth fyd-eang ei hyrwyddo yn dda o fewn y cwricwlwm gan fagu ac ehangu dealltwriaeth y dysgwyr o bwysigrwydd parchu gwahanol ddiwylliannau.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda.

Ceir addasiadau effeithiol i sicrhau fod y dysgwyr yn deall y pwnc a beth i'w wneud. Mae perthynas ardderchog gan athrawon a chymorthyddion, yn magu hyder yn y disgyblion, ac yn sefydlu awyrgylch gefnogol sydd yn meithrin dysgu.

Cynllunir gwersi yn fedrus a defnyddir amrediad da o ddulliau addysgu gan ystyried anghenion penodol y dysgwyr. Mae'r nodau yn glir, ac mae adnoddau addas yn cael eu darparu a'u defnyddio yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cyd-weithio yn dda gydag arbenigwyr allanol i ehangu ansawdd yr addysgu. Serch hynny, mae ambell i enghraifft pan nad yw'r dysgwyr mwy abl yn cael eu hymestyn i'r eithaf.

Mae pob athro yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth.

Caiff asesu ei weithredu yn effeithiol ac mae dadansoddiad manwl o ddata yn sicrhau bod y staff yn gosod targedau addas ar gyfer pob disgybl.

Mae system tracio cynnydd yn y pynciau craidd ac o fewn y CAU yn gadarn a defnyddir y wybodaeth i ymyrryd yn ôl yr angen ac i gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae gan y mwyafrif o'r dysgwyr ddealltwriaeth dda o sut i asesu eu gwaith ac adnabod eu cynnydd, yn unol â'u gallu gwybyddol. Mae cofnodi trwy ddulliau gweledol hefyd yn rhoi cymorth iddynt adnabod cynnydd yn erbyn eu targedau unigol.

Defnyddir arbenigedd gwasanaethau allanol i ehangu gweithdrefnau asesu ac mae hyn yn cyfrannu yn dda tuag at adnabyddiaeth o gyflawniad a mannau lle ellir paratoi ar gyfer gwelliant.

Mae'r adroddiadau ac adolygiadau blynyddol yn ymateb a'r gofynion statudol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn cynnig gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o fyw yn iach a chadw'n heini, yn dda.

Gwneir defnydd hynod o effeithiol o arbenigedd a gwasanaethau cefnogol i gyfarfod a'r ystod eang o anghenion ychwanegol y dysgwyr.

Mae'r ysgol yn meddu ar systemau effeithiol iawn i sicrhau bod unrhyw ddysgwr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael gofal ac arweiniad cefnogol.

Mae'r strategaeth ar gyfer gwella ymddygiad a hefyd i gyfarfod ac anghenion dysgwyr ac awtistiaeth yn hynod o effeithiol, gyda'r dysgwr yn rhan weithredol o fewn y broses. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer wedi ei sefydlu yn gadarn o fewn y Cyfnod Sylfaen, ac yn cael ei ymestyn fel ymarfer da i'r cyfnodau allweddol eraill. Mae'r defnydd o arbenigedd allanol yn y cyd-destun yma, sydd yn cael ei rannu gydag ysgolion eraill, yn rhagorol, ac yn arwain y sector.

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

Mae gan yr ysgol bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae cyngor yr ysgol yn weithredol ac yn rhoi profiadau gwerthfawr i'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr yn dda.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos arbennig yr ysgol yn gynhwysol ac yn magu cydraddoldeb a pharch tuag at bob dysgwr. Caiff pob dysgwr eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd o weithgareddau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi da i sicrhau fod pob dysgwr ac aelod staff yn rhydd o aflonyddwch. Mae systemau cadarn yn eu lle i sicrhau diogelwch. Mae'r awyrgylch hapus a diogel yn yr ysgol yn seiliedig ar gydberthynas a pharch rhwng bob aelod o staff a dysgwyr.

Nid yw maint a chyfleusterau'r ysgol yn ddigonol mwyach ar gyfer nifer y dysgwyr.

Mae'r ysgol yn cael ei chynnal yn dda gyda gwelliannau wedi cael eu gweithredu yn cynnwys toiledau newydd, ramp a drws ffrynt

Mae digon o adnoddau addas yn yr ysgol sydd i gyfarfod ac anghenion y dysgwyr. Mae'r adnoddau priodol ac amgylchedd positif yr ysgol yn cefnogi'r addysgu yn dda .

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn dda.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae'r tîm rheoli yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sefydlu disgwyliadau clir o fewn hinsawdd hapus a chefnogol i wella'r ddarpariaeth a'r safonau. Maent yn defnyddio gwybodaeth reoli berthnasol i osod amcanion a thargedau clir ar gyfer cynllunio strategol.

Caiff gwaith tîm ei annog a'i werthfawrogi a chydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin sy'n canolbwyntio ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Rhennir cyfrifoldebau penodol ymysg yr athrawon a'r cymorthyddion a gwnânt oll gyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad yr ysgol. Gwneir defnydd da o arbenigedd staff.

Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o drefniant yr ysgol a'r ymdrechion a wneir i wella safonau. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau fel ffrind beirniadol o ddifri ond nid ydynt eto yn llawn weithredol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

Caiff polisiâu a mentrau, gan gynnwys rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, eu rhoi ar waith yn gyson. Mae'r ysgol wedi sefydlu'r Cyfnod Sylfaen a diwygio cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 i ymateb i ofynion 2008 yn llwyddiannus. Mae llwybrau dysgu 14-19 yn cael sylw da.

Gwella ansawdd: Da

Mae ansawdd yr hunan arfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda.

Mae'r trefniadau'n gynhwysfawr ac y seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol o nifer o ffynonellau. Mae diwylliant o hunan arfarnu yn gadarn. Mae'r pennaeth, y tîm rheoli a'r llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth dda o gryfderau ysgol ond nid oes digon o gydnabyddiaeth yn yr adroddiad hunan arfarnu o'r hyn sydd angen ei wella.

Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau staff, llywodraethwyr, dysgwyr a grwpiau o'r tu allan, gan gynnwys rhieni a chynrychiolwyr o'r gymuned leol ac asiantaethau arbenigol yn ofalus cyn penderfynu ar flaenoriaethau.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol ac yn rhoi cyfeiriad clir sy'n debygol o arwain at welliannau pellach. Serch hynny, nid oes cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu a'r blaenoriaethau a gytunwyd.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolwg diwethaf. Cymerodd yr ysgol gamau gweithredol priodol mewn ymateb i'r materion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu broffesiynol sydd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae rhwydweithiau effeithiol i gydweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau gyda rhieni, gwarchodwyr, y gymuned ac eraill yn dda.

Mae trefniadau i gyfoethogi'r partneriaethau yma drwy'r strwythurau cefnogol yn effeithiol iawn. Mae'r cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol yn eithriadol gynhwysfawr ac yn gryfder amlwg.

Mae'r trefniadau sefydlu ar gyfer dysgwyr sydd yn cychwyn yn yr ysgol yn drylwyr dros ben. O'r herwydd, mae'r disgyblion yn setlo'n gyflym ac mae'r staff yn creu amgylchedd hapus a chadarn ar eu cyfer. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r ysgolion prif lif a cholegau lleol. Mae datblygiad arloesol ar waith rhwng yr ysgol a Phrifysgol Bangor yn y maes ymddygiad/awtistiaeth. Mae aelodau'r staff yn canolbwyntio'n dda ar gynllunio a darparu adnoddau ar y cyd yn ogystal ag adeiladu cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r ysgol yn ymgymryd â rôl flaenllaw i ddatblygu arferion cydweithio gyda nifer helaeth o asiantaethau a gwasanaethau lles a chymdeithasol i sicrhau'r cyfleoedd gorau posib i'r dysgwyr mwyaf bregus gyrraedd eu potensial. Mae'r partneriaethau

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at sicrhau ansawdd ar y cyd ac yn ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i'r dysgwyr.

Rheoli adnoddau: Da

Mae rheoli adnoddau yn dda.

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu a lles yr holl ddysgwyr. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda ac mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu rheoli'n dda.

Trwy'r ysgol gyfan, mae ystod dda o adnoddau a gwneir defnydd da ohonynt. Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu ei hadolygu'n gyson a chynllunnir ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y dysgwyr. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd lleiafrif o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Mynegodd bron pob un gefnogaeth a'r ysgol, gan gadarnhau fod eu plant yn hoffi bod yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Ceir canmoliaeth gan bob un at waith y staff, gyda chymorth, arweiniad a diogelwch yn cael ei gymeradwyo gan bron pawb. Mae pob rhiant neu ofalwr yn credu fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Ychydig iawn sydd yn credu nad yw dysgwyr yn ymddwyn yn dda.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd saith o ddysgwr yr holiadur, i gyd yng nghyfnod allweddol 3, 4 neu ôl-16. Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, ac yn teimlo y gallant siarad â rhywun os oes ganddynt bryder. Maent i gyd yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff, ac o'r farn eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Teimlant fod yr athrawon yn eu helpu i ddatblygu a bod yna ddigon o offer ar gael iddynt. Serch hynny mae ychydig yn teimlo nad yw'r ysgol yn gwrando yn ddigonol ar eu barn, yn eu haddysgu yn ddigonol ar gyfer sut mae byw yn iach, nac yn eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a derbyn cyfrifoldebau.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Mr Glyn Griffiths	Arolygydd Cofnodol
Mr Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Tîm
Mr Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Mrs Iorylle Aubrey	Arolygydd Cymheiriaid
Mrs Donna Rees Roberts	Enwebai'r Ysgol

Contractwr:

EPPC-Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ

Adroddiad ar Ysgol Hafod Lon
7 Rhagfyr 2011

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11